

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS FAWRTH 11eg O FAWRTH 2014 YN YSGOL RHEWL AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Clwyd Thomas (Cadeirydd). Mike Denman, Sian Davies, Deryl Roberts, Gwyn Howatson, Medwyn Jones, Ian Hession, Dewi Roberts, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1. CRQESO - Croesawodd y Cadeirydd i'r aelod newydd y Cyngor, Dewi Roberts i'r cyfarfod.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorydd Brynle Lloyd.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR. Cadarnhawyd cofnodion Meg Ionawr 2014 a'u harwyddo gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd adroddiad y Cyngorydd Mike Denman bod Cymdeithas Tai Clwyd am werthu popeth sydd yn cynnwys o fewn yr Eglwys yn Rhewl a'r arian yn dŵad yn ôl i'r Gymuned. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu at Gymdeithas Tai Clwyd cynnig i'r aelodau'r Eglwys hawlio unrhyw berchnogaeth o'r Eglwys cyn gwerthu ac i'r cwmni rhoi'r Gloch a'r Twr yn ôl i'r Gymuned fel cof am yr Eglwys.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio am estyniad i 14 Bro Clywedog, Rhewl.

C. Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry, o'r cyfarfod safle ers y cyfarfod blaenorol ynglyn a materion ffyrdd y Gymuned.

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £7,956.00

B. Derbyniwyd £500.00 grant tuag at gostau'r Wefan oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gofyn i Mr Tudor Jones o Gwmni Cennin i addasu'r Wefan bresennol y Cyngor.

C. Taliadau

(i) Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31lain o Fawrth 2014 - £300.00.

(ii) PAYE am y chwarter yn diweddu 31lain o Fawrth 2014 - £75.00.

(iii) Chostau'r Clerc am y flwyddyn yn diweddu 31lain o Fawrth 2014 - £677.85.

(iv) Tal Aelodaeth 2014/15 Un Llais Cymru - £84.00

6. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Adeilad Amaethyddol ym mhlas-y-ward, Rhewl - dim gwrthwynebiad.

B. Adeilad Amaethyddol yn Ty Mawr, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

C. Codi dau Dyrbin Wyift ar dir wrth Fferm Ysgtbiuii, Cyffyliug. Penderfynwyd yr aelodau ar y sylwadau canlynol:-

(i) Mae'r cais yn rhy agos i'r tai gyferbyn ar leoliad.

(ii) Mi fydd y tyrbinau yn swinio.

(iii) Mae'r safle yn hanesyddul.

(iv) Mae'r Cyngor yn cefnogi'r gwrthwynebwyr lleol i'r cais cynllunio.

7. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

8. UNRHYW FATER ARALL.

A. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Mike Denman a fynychodd Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru yn ddiweddar.

B. Cafwyd trafodaeth ynglyn ar goed bydd rhaid i Gapel Rhewl ail plannu ar ol tynnu dau goeden yn y fynwent.

C. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ar goeden sydd angen ei chwympo cyferbyn a safle dwr ar ffordd Llanynys yn Rhewl - Y cynghorydd Dewi Roberts i wneud ymholiadau.

9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Nos Fawrth 13eg o Fai 2014 yn Ysgol Rhewl am 7.30 o'r gloch.